# DIGWYDDIAD RHANNU ARFER DDA

Rhagoriaeth Academaidd

**2-3 GORFFENNAF 2024**

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



# Tudalen Cynnwys


- Trosolwg amserlen

**Dydd Mawrth 02/07/2024**

- Sesiwn Bore
- Cinio -Rhwydweithio a Phoster
- Sesiwn Prynhawn
- Paneli Trafod

**Dydd Mercher 03/07/2024**

- Sesiwn Bore
- Sesiwn Prynhawn
- Posteri




# TROSOLWG AMSERLEN

## Dydd Mawrth - 02/07/2024

9.30-10.00 **Cofrestri**

10.00-10.15 **Croeso**

Yr Athro Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth a Dr. Aled Eurig, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

10.15-10.55 **Sesiwn Bore - Panel Un**

*'Newid model addysgu myfyrwyr astudiaethau gwyddor da byw'*
Dr. Manod Williams, Prifysgol Aberystwyth

*'Ble gellir dod o hyd i greadigrwydd yn Nghwricwlwm i Gymru? Dadansoddiad o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru gan ystyried y cyfleoedd a'r heriau a gynigir i athrawon ar lawr y dosbarth'*
Miss Megan Beth Sass, Myfyriwr PhD Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

10.55-11.20 **Amser Paned**

11.20-12.15 **Sesiwn Bore - Panel Dau**

*'Dewch i chwarae! Dysgu gweithredol: cyfleodd am ddysgu ymarferol fel modd i gysylltu damcaniaeth gydag ymarfer addysg blynyddoedd cynnar'*
Ms. Glenda Tinney, Ms. Alison Rees Edwards a Ms. Natasha Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

*'Ymchwilio i mewn i brofiadau myfyrwyr BA Troseddeg a'r Gyfraith yn y Brifysgol Agored. Gwersi ar gyfer dylunio cwricwlwm?'*
Mr Martin Samuel Jones, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

# TTROSOLWG AMSERLEN

| | |
|---|---|
| 12.15-12.30 | **'Rhagoriaeth a'r AUYmlaen'**<br>Ms. Barbara E Thomas (PFHEA, FRSA), Ymgynghorydd Addysg Uwch |
| 12.30-14.00 | **Cinio -Rhwydweithio a Phoster**<br>*'Cyflwyno'n Ddwyieithog – Offeryn Cefnogol Syml - Sylfaenol Gwell Gorau'*<br>Ms. Helen Griffiths, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion |
| 14.00-15.30 | **Sesiwn Prynhawn**<br>*''Cefnogi', 'Cysylltu' ac yn 'Arfogi' ein myfyrwyr ar gyfer y dyfodol'*<br>Dr. Siân Lloyd-Williams, Mr. Prysor Davies a Dr. Rhodri Aled Evans, Prifysgol Aberystwyth<br><br>*'Gwella Dysgu ac Addysgu: Ateb y galw'*<br>Dr. Leila Griffiths a Bethan Wyn Jones, Prifysgol Bangor<br><br>*'Mae'n bosib o bell: Llwybr i lwyddiant'*<br>Dr. Nia Cole Jones, Ms. Megan Jones a Ms. Carys Jennings, Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| 15.30-16.00 | **Amser Paned** |
| 16.00-17.00 | **Paneli Trafod**<br>Mi fyddwn yn rhannu'r sesiwn hon yn dri phanel cydamserol i drafod rhannu arfer da yn y pynciau canlynol:<br>Cefnogi myfyrwyr     Goruchwyliaeth     Tiwtora personol |
| 17.00-17.15 | **Sylwadau cloi** |

# TTROSOLWG AMSERLEN

## Dydd Mercher - 03/07/2024

| | |
|---|---|
| 9.45-10.00 | **Agor** |
| 10.00-10.45 | **Sesiwn Bore**<br>'Trosoledd Hapchwarae ar gyfer Ymgysylltiad a Chyrhaeddiad Gwell mewn Addysg Gwyddora Feddygol Israddedig'<br>Dr. Dylan Wyn Jones, Prifysgol Bangor<br><br>'Cymdeithaseg mewn Cartŵn: Pecyn Adnoddau Aml-gyfrwng Cymdeithaseg'<br>Dr. Cynog Prys a Dr. Rhian Hodges, Prifysgol Bangor |
| 10.15-12.15 | **Cymdeithas Ddysgedig Cymru**<br>Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd y Gymdeithas Ddysgedig Cymru. |
| 11.00-11.15 | **Amser Paned** |
| 11.15-12.30 | **Sesiwn Prynhawn**<br>*'Ymgorfforі cyflogadwyedd mewn modiwl traethawd hir Ysgol Fusnes Aberystwyth'*<br>Mr. Jonathan Fry a Dr. Sioned Llywelyn, Prifysgol Aberystwyth<br><br>'Datblygu Modiwl Traws-ddisgyblaeth Cyfrwng Cymraeg i Fyfyrwyr Busnes'<br>Yr Athro Eleri Rosier, Dr Robert Bowen, Dr Leon Gooberman, Dr Kevin Evans a'r Athro Kevin Holland, Prifysgol Caerdydd.<br><br>Adfyfyrio er mwyn creu tystlioaeth o'ch llwyddiant a gwella eich dysgu!'<br>Dr. Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor |

# TROSOLWG AMSERLEN

12.30-13.30 **Cinio**

13.30-14.00 **Posteri**

*''Gwerthusiad Ymchwil Weithredu o Gynllun Datblygu Staff 'Ein Taith Iaith'*

Mrs Marion Evans, Coleg Pen-y-bont

*'Lleihau dibyniaeth Google Translate trwy arbrofion.'*

Ms Katie R. Walsh, Coleg Penybont

14.00-15.30 **Gorffen**

# Sesiwn Bore

**‘NEWID MODEL ADDYSGU MYFYRWYR ASTUDIAETHAU GWYDDOR DA BYW’**

Pwrpas y cyflwyniad yma bydd i ddisgrifio newidiadau sydd wedi'i wneud i fformat addysgu'r modiwl systemau cynhyrchu da byw i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn yr Adran Gwyddorau Bywyd. Bydd ffocws ar y fformat addysgu ac arfer da, defnydd ffermydd y Brifysgol ar profiad myfyrwyr a technegau asesu'r myfyrwyr. Bydd yna drafodaeth bras hefyd ar gynlluniau i ddatblygu fformat y gyfres modiwlau systemau cynhyrchu da byw i myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn.

**DR. MANOD WILLIAMS, PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

# Sesiwn Bore

## 'BLE GELLIR DOD O HYD I GREADIGRWYDD YN NGHWRICWLWM I GYMRU? DADANSODDIAD O FFRAMWAITH CWRICWLWM I GYMRU GAN YSTYRIED Y CYFLEOEDD A'R HERIAU A GYNIGIR I ATHRAWON AR LAWR Y DOSBARTH'

Yn y papur hwn, eir ati i drafod agweddau ar greadigrwydd ym maes addysg Uwchradd yng Nghymru gan roi sylw penodol i theorïau creadigrwydd cyffredinol a'u cymhwyso i fyd addysg. Symudir ymlaen wedyn i ystyried le yn union y mae creadigrwydd yn codi ac yn cael ei drafod yng Nghwricwlwm i Gymru.

Archwilir theorïau sy'n ymwneud â diffinio creadigrwydd a sut y mae'r agweddau sy'n gysylltiedig â diffinio creadigrwydd yn cael eu trosglwyddo i lawr y dosbarth. Ystyrir hefyd, theorïau creadigrwydd sydd wedi cael eu cynllunio yn benodol i'r byd addysg a sut y defnyddir y theorïau hyn i lunio addysgeg megis 'Pump Arfer Creadigol y Meddwl.' Mae fy nghanfyddiadau hyd yn hyn yn awgrymu nad yw'r system addysg cyfredol yn galluogi i greadigrwydd ffynnu ac felly ystyrir sut y mae Cwricwlwm i Gymru yn ceisio mynd i'r afael â hwn.

Gan ffocysu yn benodol ar y dosbarth Cymraeg, bwriedir ystyried ble yn union y mae creadigrwydd yn derbyn sylw yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Ystyrir arwyddocâd rôl flaenllaw creadigrwydd yn y Fframwaith a goblygiadau ymarferol hynny. Mae bellach yn ran o ddeddf gwlad (Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021) bod creadigrwydd yn cael ei feithrin o fewn ysgolion, yn draws gwricwlaidd ac felly archwilir arwyddocâd hyn hefyd.

# Sesiwn Bore

Cyflwynir rhai o ganfyddiadau cynnar y prosiect, yn benodol yr ymchwil a gesglir trwy gyfweld ag unigolion a fu'n rhan o'r broses o lunio Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Ystyrir rhai o'r prif themâu a godwyd yn y cyfweliadau megis diffinio creadigrwydd a'i bwysigrwydd ym myd addysg. Bu'r unigolion hyn yn rhan o'r grwpiau arbenigol a arweiniodd ar ddatblygu Cwricwlwm i Gymru ac felly roedd ganddynt mewnwelediad difyr a holl bwysig i'r broses lunio.

Deillia'r papur hwn o'm gwaith ymchwil cychwynnol ar gyfer fy mhrosiect PhD a bwriad y papur yw cyflwyno'r maes ymchwil yn fras gan dynnu sylw i rai o ganfyddiadau cynnar yr ymchwil. Gobeithir yn yr hir dymor y bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at theorïau damcaniaethol yn ymwneud â chreadigrwydd gan hefyd newid agweddau ar sut y dehonglir creadigrwydd yn y byd addysg. Manylir hefyd ar y camau nesaf yn y broses casglu data. Fy mhrif gasgliadau hyd yma yw bod creadigrwydd yn derbyn rôl ganolog yn Fframwaith Cwricwlwm a'r her fwyaf sy'n wynebu athrawon wrth iddynt gyflwyno Cwricwlwm i Gymru i'w dysgwyr yw trosglwyddo creadigrwydd i lawr y dosbarth.

**MISS MEGAN BETH SASS, MYFYRIWR PHD YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL CAERDYDD**

# Sesiwn Bore

**‘DEWCH I CHWARAE! DYSGU GWEITHREDOL: CYFLEODD AM DDYSGU YMARFEROL FEL MODD I GYSYLLTU DAMCANIAETH GYDAG YMARFER ADDYSG BLYNYDDOEDD CYNNAR’**

Mae cwrs gradd Addysg a Blynyddoedd Cynnar, PCYDDS wedi datblygu ystod o ffurf i gefnogi dysgu gweithredol er mwyn cefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o ddamcaniaeth ac ymchwil maes blynyddoedd cynnar. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

Modiwlau sy’n cynnwys cyfleodd i chwarae ac felly datblygu syniadau gan ddefnyddio'r fath o adnoddau byddai plant yn cael cyfle archwilio yn eu addysg cynnar. Drwy gynnig cyfleodd i fod yn greadigol, dysgu yn yr awyr agored ac ymchwilio adnoddau ‘loose parts’ gall fyfyrwyr hefyd trafod agweddau penodol o’r cwricwlwm, hawliau plant a damcaniaethwyr arwyddocaol y maes.

Mae cyfleoedd ymarferol hefyd yn cefnogi asesiadau mewn rhai modiwlau. Er enghraifft mae modiwlau datblygu iaith a llythrennedd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gwneud asesiad sy’n cynnwys y myfyrwyr yn cynnal sesiynau stori ddigidol a thraddodiadol. Nod y dasg yma yw i fyfyrwyr ymarfer y sgiliau angenrheidiol, o ran cynnal ymarfer blynyddoedd cynnar o’r ansawdd uchaf. Ceir cyfle hefyd iddynt greu adnodd fidio o’r profiad sy’n gadael iddynt fyfyrio a gwerthuso'r broses o greu’r storiâu o ran ymchwil cyfredol a damcaniaeth penodol y maes.

# Sesiwn Bore

Mewn modiwl arall mae myfyrwyr yn cael cyfle i ddatblygu hyder a sgiliau dysgu awyr agored, drwy gefnogi sesiynau ymarferol mewn ysgol leol. Eto'r nod yw i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau ymarferol a chael adfyfyrio ar sut mae'r profiadau yn cysylltu gyda gwerthoedd y maes blynyddoedd cynnar megis chwilfrydedd, archwilio, dilyn trywydd y plentyn a chreu amgylchedd dysgu diddorol.
Mae cynnig profiadau ymarferol i fyfyrwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfleodd i drafod a dadansoddi cysyniadau. Heb y cyfleodd yma ni fyddai modd i fyfyrwyr werthuso a dadansoddi yn ddwfn. Mae'r profiadau ymarferol yma yn mynd llaw yn llaw gydag ystod o brofiadau academaidd eraill sy'n cryfhau profiadau astudio.
Ymhellach, mae cyfleodd ymarferol yn bwysig o ran hybu a chefnogi sgiliau cyfrwng Cymraeg myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg neu i wella a datblygu sgiliau dwyieithrwydd. Rydym fel tîm yn meddwl mai'r lle gorau i wneud hyn yw drwy gael defnyddio'r iaith ar lafar yn gyson. Mae cyfleoedd ymarferol a gweithredol yn cynnig amser i ddefnyddio eu Cymraeg yn gyson a chael rhyngweithio gydag eraill i wneud hynny.

Fe fydd y cyflwyniad yn dangos enghreifftiau o'r profiadau ymarferol rydym yn cynnig myfyrwyr ac yn cynnig adborth am y cyfleodd a heriau wrth ddatblygu cwricwlwm addysg uwch ymarferol a gweithredol.

**MS. GLENDA TINNEY, MS. ALISON REES EDWARDS A MS. NATASHA JONES, PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT**

# Sesiwn Bore

**‘YMCHWILIO I MEWN I BROFIADAU MYFYRWYR BA TROSEDDEG A’R GYFRAITH YN Y BRIFYSGOL AGORED. GWERSI AR GYFER DYLUNIO CWRICWLWM?’**

Mae’r gallu i fabwysiadau sgiliau a rhyng-ddisgybliedig eisoes wedi eu cydnabod yn fuddiol i fyfyrwyr, yn enwedig yng nghyd-destun cyflogadwyedd: yn ehangu ar yr amrediad o swyddi gall fyfyrwyr ymgymryd ag ar ôl graddio (Misiewicz, 2016). Un ffordd boblogaidd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth ar draws dau faes yw drwy astudio gradd cydanrhydedd. BA Troseddeg a’r Gyfraith yw gradd cydanrhydedd fwyaf ysgol y Gyfraith y Brifysgol Agored. Er ei phoblogrwydd, sylwer blwyddyn ar ôl blwyddyn bod gwahaniaethau sylweddol yn bodoli yng nghyrhaeddiad a dargadwedd myfyrwyr cydanrhydedd, o’u gymharu â myfyrwyr gradd sengl y Gyfraith, gyda phatrymau tebyg yn bodoli ar raddau cydanrhydedd eraill ar draws y Brifysgol. Felly, er y nod o ehangu cyflogadwyedd myfyrwyr drwy gynnig graddau cydanrhydedd, y gwirionedd anghyfleus yw nad yw cynnig gradd cydanrhydedd yn llwyddo i gyflawni’r nod hwn mewn sawl sefyllfa.

# Sesiwn Bore

Prin yw'r ymchwil cyhoeddedig ar brofiadau myfyrwyr cydanrhydedd. Yn ôl Pigden a Jegede (2020) mae rhai o'r heriau pennaf yn cynnwys trafferthion ymgartrefu mewn dwy adran, i ddeall gwahaniaethau disgyblaethol, gwahaniaethau gweinyddol a diffyg 'perchnogaeth' dros fyfyrwyr cydanrhydedd: a hynny'n arwain at deimlad o ddiffyg 'ymberthyn'. Mae'r heriau hyn yn debyg i'r heriau a wynebwyd gan fyfyrwyr rhyngwladol (Bamford, 2023). Pwrpas y prosiect ymchwil yma yw deall yn well siwrne academaidd myfyrwyr cydanrhydedd BA Troseddeg a'r Gyfraith yn y Brifysgol Agored a'r heriau y wynebwyd at lwyddiant wrth astudio modiwlau'r gyfraith. Drwy ddefnyddio dulliau ymchwil cymysg, ceisiai'r ymchwil ddeall mewn ffordd gyfannol profiad myfyrwyr BA Troseddeg a'r Gyfraith yn y gobaith o ganfod ymyriadau dysgu ac addysgu sy'n fyddai'n fuddiol i fyfyrwyr cydanrhydedd. Gan hynny, ceisiai'r ymchwil nodi prif welliannau y gellid eu mabwysiadu wrth ddylunio cwriciwlem graddau cydanrhydedd y gyfraith, er mwyn gwella profiad a chyrhaeddiad myfyrwyr cydanrhydedd, a chyflawni amcanion addysg cydanrhydedd yn well, drwy gynhyrchu graddedigion cydanrhydedd mwy cymwys.

**MR MARTIN SAMUEL JONES, Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU**

# Rhwydweithio a Phoster

**‘CYFLWYNO'N DDWYIEITHOG – OFFERYN CEFNOGOL SYML - SYLFAENOL GWELL GORAU’**

Cyflwyno'n Ddwyieithog – Offeryn Cefnogol Syml -  Sylfaenol Gwell Gorau
Yr hyn sydd gennym i’w gynnig yw offeryn gweledol, cyfarwyddol, hawdd ei ddilyn y gall tiwtoriaid weithio drwyddo fel rhestr wirio er mwyn canfod lle maen nhw’n sefyll ar hyn o bryd o ran eu gallu i gyflwyno’n ddwyieithog, a sut y gallant symud ymlaen a gwella eu hystafell ddosbarth ddwyieithog er budd ein holl ddysgwyr.  Y syniad yw y gall pob tiwtor ddatblygu ei sgiliau addysgu dwyieithog o Sylfaenol i Well i Orau ac felly, yn y modd hwn, bydd pob dysgwr yn derbyn o leiaf y profiad dosbarth dwyieithog ‘Sylfaenol’ ym mhob un wers y maen nhw’n ei mynychu ond gyda llawer mwy, yn enwedig yn y meysydd pwnc blaenoriaeth, yn derbyn cyflwyniad dwyieithog ‘Gwell’ a ‘Gorau’.  Mae'r cyfarwyddyd gweledol hwn o'r gwahanol lefelau’n galluogi tiwtoriaid i fynd ati’n hawdd i ‘dicio i ffwrdd’ o’r rhestr wirio yr hyn sy’n gwneud gwers ddwyieithog sylfaenol, gwell a gorau. Ein nod yw galluogi staff sydd ag unrhyw lefel o sgiliau Cymraeg i gyflwyno o leiaf gwers ddwyieithog Sylfaenol yn hyderus, ac y bydd hyn yn eu hysbrydoli i symud ymlaen ymhellach ar hyd y continwwm i wella eu sgiliau nhw eu hunain, yn ogystal â sgiliau Cymraeg eu dysgwyr.

# Rhwydweithio a Phoster

Fe wnaethom lansio’r offeryn, a ategwyd gan gyfres o sesiynau datblygu staff yn arddangos
sut i ddefnyddio, a ble i ddod o hyd i’r adnoddau sydd ar gael yn hawdd er mwyn bodloni pob un o feini prawf y llwybr cyfarwyddol. Ein cam nesaf wrth ddatblygu’r offeryn ‘Sylfaenol Gwell Gorau’ yw cynhyrchu fersiwn mwy digidol gyda'r adnoddau digidol a'r sesiynau hyfforddi wedi'u llwytho y tu ôl i bob un o’r meini prawf fel y gall tiwtoriaid ddychwelyd at yr offeryn, dro ar ôl tro, i adolygu ac addasu’r adnoddau sydd ar gael a chefnogi eu datblygiad ar hyd y meini prawf Sylfaenol Gwell Gorau. Bydd y pecyn digidol yn ategu'r ffeithlun a bydd yn ddeniadol ac yn addysgiadol.

**MS. HELEN GRIFFITHS, COLEG SIR GÂR A CHOLEG CEREDIGION**

# Sesiwn Prynhawn

**‘‘CEFNOGI’, ‘CYSYLLTU’ AC YN ‘ARFOGI’ EIN MYFYRWYR AR GYFER Y DYFODOL’**

Nod yr adran Addysg ym mhrifysgol Aberystwyth yw sicrhau ein bod yn ‘Cefnogi’, ‘Cysylltu’ ac yn ‘Arfogi’ ein myfyrwyr ar gyfer y dyfodol. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae angen i ni gynnig cyfleoedd amrywiol a chyfoethog sy’n galluogi i’r myfyrwyr ffynnu yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. Mae’r adran wedi treialu a datblygu nifer o weithgareddau yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyflawni hyn. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cryfhau ymdeimlad o berthyn drwy ddatblygu awyrgylch agored, croesawgar a chynhwysol.
- Grymuso’r Gymraeg drwy gynnig sesiynau i ddysgu’r Gymraeg am ddim i fyfyrwyr. Elfen bwysig er mwyn cefnogi y myfyrwyr ar leoliad.
- Cefnogi Sgiliau Cyflogadwyedd drwy drefnu amserlen o weithgareddau megis seminarau, cynhadledd cyflogadwyedd ac cysylltu sgiliau allweddol o fewn modylau.
- Datblygu a hyrwyddo llais y myfyriwr drwy y pwyllgor staff, myfyrwyr, cymdeithas addysgol, cynrychiolwyr myfyrwyr.

Mi fydd y sesiwn hon yn ffocysu ar y 4 thema uchod. Mi fyddwn yn dechrau drwy ddarparu trosolwg o’r hyn sydd yn digwydd yn yr adran ar hyn o bryd (25 munud) ac yna yn gwahodd y gynulleidfa i drafod eu profiadau a chyfrannu eu syniadau eu hunain ar sut y gellid cefnogi myfyrwyr ymhellach (20 munud).

**DR. SIÂN LLOYD-WILLIAMS, MR. PRYSOR DAVIES A DR. RHODRI ALED EVANS, PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

# Sesiwn Prynhawn

**'GWELLA DYSGU AC ADDYSGU: ATEB Y GALW'**

Rydyn ni yma yn y Tîm Cefnogi Dysgu ac Addysgu ym Mhrifysgol Bangor wedi, ac yn parhau i wynebu cyfnod o addasu ac ailystyried y ffyrdd rydyn ni'n mynd ati i gefnogi staff academaidd a myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Deillia hyn o'r galw cynyddol am gymorth ac adnoddau ar-lein, sy'n sefyllfa gyffredin ar draws y sector addysg yn sgil COVID-19 ac sy'n parhau'n angen real hyd heddiw.

Daeth ein tîm i fodolaeth yn 2021, yn fuan ar ôl dechrau'r pandemig, pan ddaeth meysydd technolegau digidol, cefnogaeth academaidd llyfrgellyddol a chefnogaeth datblygu dysgu (sgiliau astudio) ynghyd i greu un tîm canolog. Ers hynny rydyn ni wedi bod yn cydweithio i geisio darparu adnoddau i staff a myfyrwyr sy'n ateb y galw cynyddol hwnnw.

Rhai ystyriaethau rydyn ni wedi archwilio hyd yma yw pa lwyfannau digidol fyddai orau i'w defnyddio (e.e. Blackboard, Microsoft Sharepoint, Sway, Xerte), pa feysydd sydd angen canolbwyntio arnynt (e.e. fideos i gynorthwyo staff gyda recordio ar Panopto, canllaw i fyfyrwyr ar ddefnyddio Turnitin, canllawiau astudio ar uniondeb academaidd, deallusrwydd academaidd, a dadansoddi a gwerthuso beirniadol), a sut i hyrwyddo, hysbysebu ac arwain staff a myfyrwyr at yr adnoddau hyn.

# Sesiwn Prynhawn

Yn ogystal â hyn, un ystyriaeth allweddol sy'n ganolog i'r datblygiad adnoddau hyn yw sylweddoli'r angen i wirioneddol adnabod a deall anghenion dysgu ac addysgu ein cynulleidfa. Er enghraifft, mae'r myfyrwyr sydd bellach yn dewis astudio yng Nghymru yn fwyfwy rhyngwladol eu cefndiroedd a'u profiadau dysgu. Mae eu hoedran erbyn hyn yn ymestyn dros rychwant oes oedolyn, yn hytrach na dros ddegawd neu lai yn unig. Mae dwyieithrwydd a chynwysoldeb yn ffactorau creiddiol i'w hymgorffori i mewn i'r fath adnoddau addysgu, ac mae llythrennedd digidol, er yn cael ei gymryd yn ganiataol i raddau, dal yn faen tramgwydd i lawer.

Bydd ein cyflwyniad yn cynnwys enghreifftiau o'r math o adnoddau yr ydym eisoes wedi'u paratoi a'r heriau sy'n ein wynebu wrth sicrhau fod yr adnoddau hyn yn ddwyieithog ac yn hygyrch yr un pryd.

**DR. LEILA GRIFFITHS A BETHAN WYN JONES, PRIFYSGOL BANGOR**

# Sesiwn Prynhawn

**'MAE'N BOSIB O BELL: LLWYBR I LWYDDIANT'**

Cynlluniwyd rhaglen TAR y Brifysgol Agored (BA) yng Nghymru yn fwriadus er mwyn agor llwybrau newydd i raddedigion a newidwyr gyrfa allu dilyn trywydd dod yn athro neu'n athrawes gymwysedig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hon yn rhaglen newydd sy'n cynnig llwybr cyflogedig a rhan-amser. Mae'r BA yng Nghymru, felly, mewn sefyllfa unigryw er mwyn trafod arfer dda wrth ddysgu ac addysgu a chefnogi datblygiad academaidd myfyrwyr o bell. Hyrwydda'r rhaglen ddelwedd Gymraeg a gweithredu drwy'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf i'n hymgeiswyr. Gwneir hynny drwy farchnata'r rhaglen i siaradwyr Cymraeg, drwy lunio straeon marchnata Cymraeg yn unig a chynnig digwyddiadau recriwtio Cymraeg a dwyieithog. Gohebir am y rhaglen yn ddwyieithog a chynigir proses ymgeisio, seminarau, grwpiau tiwtor, tiwtora personol a phrofiadau ysgol oll o fewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Mynega ein darpar athrawon fod derbyn cyfleoedd i drafod a datblygu eu mamiaith yn fanteisiol iddynt a datblyga hyn eu hymdeimlad o berthyn a chrea falchder yn eu hiaith yn ogystal â magu hyder personol.

Er mwyn mireinio'r rhaglen a sicrhau dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf, sicrheir llais y myfyrwyr o fewn penderfyniadau a wneir. Trafoda ein Senedd Fach, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp, faterion yn ymwneud â'r rhaglen bob tymor. Penodwyd llysgennad â chyfrifoldeb am y Gymraeg yn eu mysg, sy'n hysbysu'i gymheiriaid o ddatblygiadau polisi a chwricwlwm, adnoddau, cyfnodau dathlu a syniadau ymarferol o ran addysgu'r Gymraeg.

# Sesiwn Prynhawn

Ystyria'r rhaglen ei rôl yn un sy'n creu llysgenhadon ar gyfer Cymraeg 2050 yn un allweddol, felly mae seminarau ar ddatblygu'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, edefyn fforwm i drafod datblygu'r Gymraeg, a chyfleoedd sgwrsio drwy'r Gymraeg yn rhannau allweddol o'r rhaglen. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu astudiaethau achos gyda'n hysgolion partner er mwyn dangos yr hyn sy'n bosibl er mwyn datblygu'r Gymraeg.

Gwelir bod ein hysgolion partner yn rhan allweddol o'n darpariaeth, ac felly rydym wedi sicrhau bod llais ysgol Gymraeg yn rhan o bwyllgor dethol rheoli'r rhaglen. Yn ogystal â hyn, cydnabyddwn anghenion penodol ysgolion Cymraeg a chefnogwn eu datblygiad fel rhan o'n rhaglenni hyfforddiant a chefnogaeth e.e. drwy gynnig sesiynau rhannu gwybodaeth yn benodol i ysgolion Cymraeg.

Chwifia tiwtoriaid cwricwlwm y rhaglen y faner i geisio sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn lle cyfartal o fewn y penderfyniadau a wneir o ran polisi a gweithredu beunyddiol. Eistedda unigolion ar bwyllgorau megis pwyllgor recriwtio a chadw, dysgu ac addysgu, grŵp llais a lles y myfyriwr a grŵp y blynyddoedd cynnar a chynradd o fewn y gyfadran er mwyn sicrhau bod anghenion myfyrwyr Cymraeg a rhaglenni dwyieithog yn cael eu hystyried.

Erys heriau, sef: parhau i ddatblygu hyder myfyrwyr er mwyn iddynt ddilyn y rhaglen yn y Gymraeg a chyfrannu at y gweithlu addysg Cymraeg; datblygu hyder mentoriaid ac ysgolion i ddatblygu sgiliau ieithyddol y myfyrwyr yn y dosbarth a sicrhau enghreifftiau o ysgolion Cymraeg sy'n weledol yn allweddol i'n darpar athrawon, er mwyn iddynt fedru uniaethu â nhw ac i annog eu twf proffesiynol.

**DR. NIA COLE JONES, MS. MEGAN JONES A MS. CARYS JENNINGS, Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU**

# Sesiwn Bore

## ‘TROSOLEDD HAPCHWARAE AR GYFER YMGYSYLLTIAD A CHYRHAEDDIAD GWELL MEWN ADDYSG GWYDDORA FEDDYGOL ISRADDEDIG’

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae integreiddio strategaethau hapchwarae mewn lleoliadau addysgol wedi denu sylw sylweddol i'w botensial i chwyldroi methodolegau addysgu traddodiadol. Mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i effeithiolrwydd hapchwarae wrth wella ymgysylltiad myfyrwyr a chyrhaeddiad academaidd o fewn cyd-destun cwrs gwyddor feddygol israddedig. Trwy ddefnyddio dull dulliau cymysg, fe wnaethom werthuso effaith elfennau wedi'u gamweddu, megis cwisiau rhyngweithiol, ymarferion efelychu, ac astudiaethau achos chwarae rôl, ar ddeilliannau dysgu myfyrwyr a chyfraddau cyfranogiad.

Mae ein canfyddiadau yn datgelu cydberthynas gadarnhaol sylweddol rhwng gweithredu technegau hapchwarae a lefelau ymgysylltu myfyrwyr. Trwy'r gweithgareddau chwarae gemau, dangosodd y myfyrwyr fwy o gymhelliant, cyfranogiad gweithredol mewn trafodaethau dosbarth, a mwy o fwynhad wrth ddysgu. Ymhellach, dangosodd dadansoddiad o ddata perfformiad academaidd welliant amlwg yng nghyrhaeddiad myfyrwyr, gyda chyfranogwyr yn perfformio’n well na’u cyfoedion yn gyson nad oeddent yn agored i brofiadau dysgu wedi’u gamweddu yn ogystal â modiwlau y mae’r un garfan yn eu cwblhau nad ydynt yn cynnwys yr elfennau gamwedd.

# Sesiwn Bore

Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at y corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n cefnogi effeithiolrwydd gamification mewn cyd-destunau addysgol, yn enwedig ym maes heriol addysg gwyddoniaeth feddygol. Trwy harneisio'r agweddau ysgogol cynhenid ar ddylunio gemau, gall addysgwyr greu amgylcheddau dysgu trochi sy'n meithrin ymgysylltiad dyfnach gan fyfyrwyr ac yn hwyluso caffael gwybodaeth a sgiliau hanfodol. Mae gan y mewnwelediadau a gafwyd o'r ymchwil hon oblygiadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ac arferion addysgeg sydd â'r nod o sicrhau'r canlyniadau dysgu gorau posibl mewn addysg uwch.

**DR. DYLAN WYN JONES, PRIFYSGOL BANGOR**

## 'CYMDEITHASEG MEWN CARTŴN: PECYN ADNODDAU AML-GYFRWNG CYMDEITHASEG'

Mae'r pecyn yn cynnwys nifer o elfennau pedagogaidd effeithiol wrth addysgu Cymdeithaseg sef cartwnau, testun a fideos. Ein nod wrth ddatblygu'r adnoddau oedd i chwilio am ffurf amrywiol i gyflwyno gwybodaeth i fyfyriwr a disgyblion ysgol drwy ddefnyddio dulliau priodol o addysgu sy'n ystyried sut mae myfyrwyr yn dysgu. Yn ychwanegol at hyn roedd gennym ni ddiddordeb mawr mewn defnyddio dulliau newydd digidol fel nodwedd ganolog o'r adnodd dysgu.

Mae Schacht a Stewart (1990) yn nodi bod defnydd cartwnau, a hiwmor, yn fodd o leihau gorbryder a gwella'r awyrgylch dysgu. Yn y maes cymdeithaseg yn benodol, mae Hall a Lucal (1999) yn nodi nad oes rhaid i addysgwyr ddilyn confensiynau dysgu arferol, ac y gall addysgwyr ddefnyddio dulliau amgen fel celfyddyd weledol a llyfrau comic i greu dulliau blaengar o addysgu. Mae'r safbwyntiau yma yn cael eu cefnogi gan ymchwil gan Mediouni et al (2019) a ddarganfuwyd bod defnyddio cartwnau yn y dosbarth yn derbyn adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr ac addysgwyr fel ei gilydd. Gellir dadlau felly bod sail tystiolaeth yn bodoli bod defnyddio cartwnau yn ddull effeithiol o addysgu. Dyma sylfaen tystiolaeth dros rhesymeg ein prosiect Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg (Prys a Hodges, 2017 – 2023).O ganlyniad, mae'r pecyn yn cynnwys gwaith celf gweledol fel adnodd amgen addysgiadol i gwrdd ac anghenion dygwyr amrywiol.

# Sesiwn Bore

.

Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys cydweithio gydag athrawon pwnc mewn ysgolion ledled Cymru, yn ogystal â darlithwyr cymdeithaseg mewn sefydliadau eraill. Ochr yn ochor a'r cartwnau, mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos byrion sydd wedi ei fewnosod i'r llyfrau unigol yn ogystal â sianel YouTube sydd ynghlwm a'r gyfres. Bellach, mae'r llyfrau hyn yn cael eu defnyddio gan athrawon cymdeithaseg ledled Cymru, fel adnodd dysgu. Mae'r adnoddau hyn wedi eu gweld bron i 8k o weithiau ar Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg. Trafodwyd cynnwys y llyfrau gydag athrawon a darlithwyr er mwyn gwerthuso effeithlonrwydd y dysgu a sicrhau ansawdd. Gweithiwyd hefyd gyda therminolegwyr i safoni termau ar gyfer y maes pwnc hwn. Mae nifer o'r termau hyn bellach yn cael eu defnyddio gan athrawon, darlithwyr a disgyblion/myfyrwyr ledled Cymru. Bydd y cyflwyniad hwn yn adrodd ar y prosesau hyn ac yn ystyried gwersi ac arfer da posib wrth gynllunio adnoddau digidol Cymraeg ar gyfer y dyfodol.

**DR. CYNOG PRYS A DR. RHIAN HODGES, PRIFYSGOL BANGOR**

# Sesiwn Prynhawn

**‘YMGORFFORI CYFLOGADWYEDD MEWN MODIWL TRAETHAWD HIR YSGOL FUSNES ABERYSTWYTH’**

Bydd y cyflwyniad yn adeiladu ar yr erthygl isod ac yn darparu cyd-destun o’r fersiwn Cymraeg o’r modiwl Traethawd Hir yn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd yna hefyd drafodaeth am y cysylltiad efo strategaeth newydd Cyflogadwyedd y Brifysgol lansiwyd yn ffurfiol ym mis Chwefror 2024

**MR. JONATHAN FRY A DR. SIONED LLYWELYN, PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

# Sesiwn Prynhawn

**‘DATBLYGU MODIWL TRAWS-DDISGYBLAETH CYFRWNG CYMRAEG I FYFYRWYR BUSNES’**

Yn unol â thargedau HEFCW, un o nodau allweddol strategaeth iaith Gymraeg Prifysgol Caerdydd yw ehangu cyfleoedd astudio er mwyn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn cael y cyfle i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â hyn, mae ein modiwl newydd 'Rheoli Busnes Bach' yn cael ei gyflwyno i fyfyrwyr blwyddyn olaf Rheolaeth Busnes am y tro cyntaf yng ngwanwyn 2024. Mae'r modiwl unigryw hwn yn torri tir newydd drwy gychwyn ar y daith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr Ysgol Busnes a wedi galluogi staff i ddefnyddio eu sgiliau iaith o fewn addysgu am y tro cyntaf.

Mae’r modiwl wedi’i ddatblygu’n arbennig ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ac mae’n cymryd i ystyriaeth y ffaith bod busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn cyfrif am 99% o fusnesau’r DU ac yn cael eu gweld fel asgwrn cefn economi Cymru. Mae staff yr Ysgol Busnes wedi datblygu adnoddau ar draws sawl disgyblaeth; rheolaeth, marchnata, arweinyddiaeth a chyfrifo; cynnwys darlithoedd, mapiau modiwl yn nodi strwythurau a gofynion dysgu, a deunyddiau asesu astudiaethau achos.

# Sesiwn Prynhawn

Bydd yr adnoddau newydd hyn yn helpu myfyrwyr i

(1) asesu'r pwysau cystadleuol, sefydliadol a rheoleiddiol sy'n wynebu rheolwyr busnesau bach

(2) gwerthuso sut mae llywodraethau Cymru a'r DU yn effeithio ar yr amgylchedd siapio busnesau bach

(3) deall sut mae rheolwyr busnesau bach wedi mynd i'r afael â heriau ar draws pynciau fel cyllid, strategaeth, cydymffurfiaeth reoleiddiol, arloesi, a marchnata, a

(4) ennill sgiliau a gwybodaeth y gellir eu trosglwyddo i reolaeth busnesau bach. Mae asesiad astudiaeth achos arloesol yn gofyn i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth a addysgir i fusnes bach go iawn yng Nghaerdydd gan ychwanegu dimensiwn arbrofol i'r modiwl.

# Sesiwn Prynhawn

Effaith ehangach y deunyddiau yw eu bod yn rhan o ymdrech ehangach i wreiddio addysgu'r Gymraeg o fewn yr Ysgol Fusnes, lle mae dros 3,300 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru a rhyw 100 ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn 2022-23 nid oedd yr Ysgol yn addysgu unrhyw gynnwys ei hun trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni allai myfyrwyr anrhydedd sengl ar draws yr holl raglenni astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg a gynigir gan ysgolion eraill o fewn y brifysgol. Bydd ein datblygiad o adnoddau ac opsiynau addysgu Cymraeg yn helpu'r Ysgol Fusnes i gyflawni ein hagenda gwerth cyhoeddus sy'n gweithio i sicrhau gwelliant cymdeithasol ochr yn ochr â datblygu economaidd, yn ogystal â'n rhwymedigaethau ehangach i Gymru fel prifysgol prifddinas. Mae myfyriwr ar y modiwl wedi ysgrifennu:

Dewisais y modiwl Rheoli Busnes Bach oherwydd fy mod i wedi gwneud fy addysg trwy'r iaith Gymraeg ac roedd hwn yn gyfle i mi ymarfer yr iaith trwy adnoddau darllen a sgwrsio yn y darlithiau. Dewisais y modiwl hefyd oherwydd mae gen i aelodau o'r teulu sy'n berchen a busnesau bach eu hunain. O ganlyniad, bydd gwella fy ymwybyddiaeth am fusnesau bach yn fy helpu yn y dyfodol… Rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith fod gen i gyfle i ddewis cwrs ble gallai dysgu fwy am elfennau hanfodol fel cyllid, strategaeth, arloesi, marchnata a sut mae nodweddion arferion rheoli penodol mewn busnesau bach yn cael eu heffeithio gan amgylcheddau sefydliadol a'r farchnad.

**YR ATHRO ELERI ROSIER, DR ROBERT BOWEN, DR LEON GOOBERMAN, DR KEVIN EVANS A'R ATHRO KEVIN HOLLAND, PRIFYSGOL CAERDYDD.**

# Sesiwn Prynhawn

## ADFYFYRIO ER MWYN CREU TYSTLIOAETH O'CH LLWYDDIANT A GWELLA EICH DYSGU!'

Mae datblygu dysgu ar sail adfyfyrio ar dystiolaeth yn hanfodol er mwyn hybu profiad dysgu cadarnhaol I fyfyrwyr a'u cefnogi i lwyddo. Ers rhai blynyddoedd mae adfyfyrio a defnydd tyslioaeth I wella a gwerthuso gwelliannau I ddysgu yn ddisgwyliadau canolog o ran safonau professiynnol darlithwyr, er enghraifft o fewn y safonau Prydeinig (UKPSF 2017 a 2023).

Bydd y sesiwn hon yn amlinellu egwyddorion datblygu cwricwlwm, gan ddefnyddio gwaith Pinar a Shon fel sylfaen. Bydd yn ystyried datblygiadau megis creu cwricwlwm sydd yn cynrychioli dealltwriaeth datblygol o safbwynt hil a rhywedd. Bydd hefyd yn cyflwyno camau o ran dylunio strategaethau dysgu ac asesu i ymateb i'r cyfleon a heriau a gyflwynir gan ddyfodiad rhaglenni deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen-AI) ynghyd a dealltwriaeth dyfnach o ran steil ac anghenion dysgu myfyrwyr.

Bydd y sesiwn yn disgrifio sut y bu i ni ehangu a dyfnhau ein proses blynyddol o adolygu modiwlau a rhaglenni ar draws Prifysgol Bangor dros gyfnod o dair mlynedd. Mae'r broses yn defnyddio sawl ffynhonnell data fel sylfaen i alluogi ddarlithwyr ac arweinwyr rhaglenni i adfyfyrio ar eu dysgu yn a chyflwyno cynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn dysgu nesaf. Trwy adolygu rhain yn ganolog gan grŵp o addysgwyr profiadol ac arweinwyr myfyrwyr, rydym wedi adnabod a rhannu arfer da, deall anghenion hyfforddi ac wedi diffinio chyfleon gwella.

# Sesiwn Prynhawn

Bydd y cyflwyniad yma yn trafod camau i werthuso datblygiadau dysgu yn effeithiol, sut mae myfyrio ar ddata megis llwyddiant myfyrwyr a sut mae creu cynlluniau cyraeddadwy ar gyfer gwella dysgu a dangos ardrawiad y gwaith yna.

Ar ddiwedd y cyflwyniad yma byddwch yn medru trafod gweithgaredd adfyfyriol o fewn fframwaith dylunio cwricwlwm. Byddwch yn gallu trafod heriau a chyfleon a chynnig datrysiadau i sefyllfaoedd gall godi ar sail arfer da. Byddwch hefyd yn medru dethol, gwerthuso a chyfuno data a gwybodaeth i greu cynlluniau i wella eich dysgu ac i arddangos eich llwyddiannau.

**DR. MYFANWY DAVIES, PRIFYSGOL BANGOR**

# Posteri

**''GWERTHUSIAD YMCHWIL WEITHREDU O GYNLLUN DATBLYGU STAFF 'EIN TAITH IAITH'**

Mae'r fenter ymchwil weithredol hon yn canolbwyntio ar werthuso cynllun Ein Taith Iaith, a gynlluniwyd i wella sgiliau addysgu dwyieithog ymhlith staff mewn sefydliadau Addysg Bellach (AB) yng Nghymru. Y cyd-destun ehangach ar gyfer yr ymchwil hwn yw'r canran isel o siaradwyr Cymraeg ymhlith dysgwyr AB (10%) a'r ddarpariaeth gyfyngedig o brofiadau dysgu dwyieithog (7%) yn y sefydliadau hyn, fel yr adroddwyd gan Estyn yn 2017. Yn cyd-fynd â strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r ymchwil yn gosod addysg a dilyniant ieithyddol ar flaen y gad yn yr ymdrech adfywio iaith hon.

Mae sylfeini damcaniaethol ar gyfer y prosiect ymchwil gweithredol hwn wedi'u gwreiddio yn y dirwedd addysgol, lle mae addysg ddwyieithog yn chwarae rhan hanfodol wrth gynhyrchu siaradwyr Cymraeg newydd, meithrin agweddau cadarnhaol, a chyflawni dyletswyddau iaith a amlinellir yn neddfwriaeth Gymraeg gwell 2011. Mae cynllun Ein Taith Iaith wedi'i leoli fel ymyrraeth strategol i gyd-fynd â'r weledigaeth ehangach o greu Cymru lle mae'r Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n ddi-dor i fywyd bob dydd, gan adleisio'r nodau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer cymdeithas lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg fel mater o drefn.

# Posteri

Y cwestiwn ymchwil canolog sy'n gyrru'r fenter hon yw a yw cynllun Ein Taith Iaith yn effeithiol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu harferion addysgu i fyny'r continwwm dwyieithrwydd. Mae'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu nod cyffredinol Llywodraeth Cymru i weld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg bellach ac uwch.

Mae ystyriaethau moesegol yn hollbwysig yn yr ymchwil hon, sy'n gofyn am gadw at ganllawiau moesegol yn drylwyr. Ceir caniatâd gwybodus gan ddysgwyr a staff, gan bwysleisio natur wirfoddol cyfranogiad a'r opsiwn i dynnu'n ôl heb ganlyniadau negyddol. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd cyfranogwyr, mae'r holl ddata a gesglir yn ddienw. Gweithredir sesiynau dadebraf ôl-ymchwil i fynd i'r afael ag unrhyw effaith seicolegol bosibl ar gyfranogwyr, gan liniaru emosiynau negyddol fel teimladau o fethiant.

Mae dulliau casglu data yn cynnwys dulliau ansoddol a meintiol. Mae holiaduron cainc ar ôl yn mesur newidiadau mewn arferion addysgu dwyieithog staff, lefelau hyder a chyflawniad targed. Mae cyfarfodydd unigol yn tywys staff drwy lefelau Efydd, Arian neu Aur, gan gynnig cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra ac adolygiadau cyfnodol. Mae gweithdai, llyfrau log, ac asesiadau tystiolaeth yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae grŵp ffocws ar gasgliad yr ymchwil yn casglu barn ac adborth sylweddol gan gyfranogwyr staff.

# Posteri

Mae dadansoddi data yn cynnwys archwiliad cymharol o ymatebion holiadur cyn ac ar ôl i nodi newidiadau mewn disgrifiadau staff o'u darpariaeth ddwyieithog, newidiadau yn lefelau hyder, a chyrraedd targedau penodol. Mae'r meini prawf asesu yn pennu cwblhau pob lefel yn llwyddiannus, tra bod dadansoddiad thematig o ddyfyniadau data grŵp ffocws yn ailgyfeirio pynciau rheolaidd a mewnwelediadau ystyrlon.

I grynhoi, mae'r fenter ymchwil weithredol hon yn ceisio mynd i'r afael â nodau ieithyddol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru drwy werthuso effaith cynllun Ein Taith Iaith ar hyrwyddo arferion addysgu dwyieithog ymhlith staff AB. Mae dyluniad yr ymchwil yn tanlinellu ystyriaethau moesegol, casglu data cynhwysfawr, a dadansoddi cadarn, gan gyfrannu mewnwelediadau gwerthfawr at ymdrechion ehangach hyrwyddo integreiddio Cymraeg mewn lleoliadau addysgol.

**MRS MARION EVANS, COLEG PEN-Y-BONT**

# Posteri

**LLEIHAU DIBYNIAETH GOOGLE TRANSLATE TRWY ARBROFION.’**

Mewn ESOL (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill) mae problem fawr gyda myfyrwyr sy’n defnyddio Google Translate gormod iawn yn y dosbarth pan maen nhw’n darllen rhywbeth newydd. Fel tiwtoriaid, dyn ni’n gwybod mae hwn ddim yn dda am eu dysg nhw achos dyn ni’n gallu gweld pan maen nhw ddefnyddio Google Translate dyn nhw ddim yn gallu cofio'r eirfa eiliad nes ymlaen. Dyn ni’n gallu stopio nhw defnyddio Google Translate yn y dosbarthiadau gyda rheolau dosbarth ond beth am eu dysg tu allan y coleg? Os dyn ni eisiau helpu myfyrwyr datblygu dysg arfer da mae rheolau dosbarth yn unig ddim yn ddigon. Dw i’n meddwl bod i’n bwysig iawn i adeiladu deall yn y myfyrwyr ei hunan ac yn helpu nhw gweld bod Google Translate ddim yn helpu nhw go iawn gyda'u dysgu iaith.

Dros bedwar dosbarth gwnaethon ni pedwar arbrawf gyda Google Translate camera, Google Translate teipio, geiriadur argraffu a geiriadur ar-lein i brofi pa un sy’n well i ddysgu iaith. Bob tro, yn gyntaf, darllenon nhw destun byr newydd ac yn defnyddio un o’r teclyn i ddeall geirfa newydd. Ar ôl iddyn nhw orffen darllen y testun, gwnaethon nhw holiadur byr i rannu sut o’n nhw’n teimlo am y teclyn. Wedyn gwnaethon nhw tri actifedd gyda’r eirfa: cyfateb allweddair, llenwi bylchau ac ysgrifennu brawddegau eu hunan. Defnyddion ni WordWall i gyfateb allweddair a llenwi bylchau a ro’n nhw’n gallu gweld eu sgorau ar unwaith. Ar ôl iddyn nhw orffen yr actifeddau, gwnaethon nhw holiadur eto i rannu sut o’n nhw’n teimlo am y teclyn nawr.

# Posteri

Roedd y canlyniadau'r arbrofion yn amlwg iawn i bawb. Dyw Google Translate ddim yn dda i ddysgu iaith o gwbl. Dim syndod yw hwn i diwtoriaid ond wnaethon ni ddim yr arbrofion i diwtoriaid ond i'r myfyrwyr. Yn y diwedd, ro'n nhw'n gallu gweld y canlyniadau a deall beth sy'n digwydd eu hunan ac mae hwn yn bwerus iawn. Dy'n ni'n gallu dweud wrthyn nhw bod Google Translate ddim yn dda ond nawr dyn nhw'n gallu gweld hwn o eu dysg eu hunan. Yn fy nghyflwyniad poster i, dw i eisiau rhannu'r arbrofion, y canlyniadau a'r teimladau'r myfyrwyr i ddangos y pŵer o helpu myfyrwyr gweld a darganfod arfer da am eu dysg eu hunan.

**MS KATIE R. WALSH, COLEG PENYBONT**